

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 3ydd o Fehefin 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Griffith Evan Thomas, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim, pob un Cynghorydd yn bresennol
2. Datgan diddordeb: Ni fu'r un Cynghorydd ddatgan buddiant.
3. Cae Chwarae - Trafod rhoi prydles neu gytundeb hirdymor i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

### **PENDERFYNIAD:**

I gynnig contract i'r Clwb Pêl-droed am y cae chwarae, gyda'r amodau isod:

-I roi cymal yn y contract ar gyfer y cae pêl-droed, sef nad oes gan y Clwb Pêl-droed yr hawl i rwystro mynediad i'r cyhoedd, a bod gan blant y pentref yr hawl i ddefnyddio'r cae ar unrhyw adeg

-I godi £1 y flwyddyn am y cae

-Rhaid i'r seddi o dan do fod ar ochr y cae ble roedd y rhandiroedd arfer bod, union leoliad i'w gytuno rhwng y Clwb a'r Cyngor

-Rhoddir yr hawl i'r clwb Pêl-droed ofyn am gyfraniad gan wylwyr yn ystod gemau

-Rhoddir yr hawl i'r Clwb pêl-droed osod llain concriid ar ochr y cae

-Bydd y Clwb Pêl-droed yn rhoi rhestr o'r gemau sydd i'w chwarae ar y cae i'r Clerc ar ddechrau'r tymor

-Y Clwb Pêl-droed i fod yn gyfrifol am dorri gwair y cae pêl-droed at safonau gemau pel-droed, gyda'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am weddill y cae chwarae

-Y Clwb Pêl-droed i gadw wyneb y cae yn daclus ac yn ddiogel i blant chwarae arno

-Rhoddir yr hawl i rwystro mynediad at y goliau er mwyn cynnal a chadw'r tir

-Y clwb Pêl-droed fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw a yswirio y seddi o dan do, y seddi o dan do ar gyfer swyddogion, y pyst o amgylch y cael, a'r goliau

-Y Clwb pêl-droed fydd yn gyfrifol am gerbydau yn cyrraedd a gadael y safle yn ystod gemau, gan hefyd reoli parcio a iechyd a diogelwch y cyhoedd

-Cedwir yr hawl i ganiatáu digwyddiadau cymunedol ddefnyddio'r cae gan y Cyngor

-Y Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am ffiniau allanol a giatiau'r cae chwarae

I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn a fyddai trethi annomestig yn daladwy pe byddai'r Cyngor yn gosod y Pafiliwn ar brydles hirdymor i'r Clwb Pêl-droed, ee cytundeb 10 bl I drafod gynnig prydles i'r Clwb pêl-droed ar ôl derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd parthed trethi annomestig, gan ystyried pwy fydd yn gyfrifol am atgyweirio a cynnal a chadw y tu mewn a'r tu allan, gan hefyd yr angen am archwiliad blynyddol o gyflwr yr adeilad

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd .....